# Cyngor y Cynrychiolwyr Cwrs
# Course Representatives' Council

## COFNODION

Dydd Mercher, 30ain o Ionawr 2013
1.30 pm – 4.00 pm
Ystafell Bwyllgor, Undeb y Myfyrwyr

**Yn Bresennol:** Jessica Leigh (Cadeirydd); Sam Reynolds (Cofnodion); Ben Meakin; Ainsley Gilbert; Jan Marshall; Catrin Jones; Katie Thompson; Craig Price; Phillip Clement; Laura Say; Will Atkinson; Cerian Jones; Callum Tapper; Sophie Tumber; Claire James; Isabelle Hamilton; Tallis Ward; Gavin Gray; Jennifer O'Neil; Alethea Price; Peter Gosiewski; Rhiannon Morris; Chiranjiv Singh Wasan; Hywel Jones; Thomas Keane

**Yn Gweinyddu:** Gavin Allen; Shelley Upton; Lillian Stevenson

**Wedi Ymddiheuro:** Barney Alldridge; Alex Fairbairn; Alexander Greenwood-Forkin; Sam Bass

**Absennol:** Martin Zokov; Lindsay Reed; Kevin Wingfield

### 1. Croesawu a Chyflwyniadau

Croesawodd JL Gavin Allen, Cydlynydd Gweithgareddau Myfyrwyr o Undeb y Myfyrwyr , a Shelly Upton a Lillian Stevenson o Gwasanaethau Gwybodaeth i'r cyfarfod.

### 2. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan bedwar aelod.

### 3. Etholiadau Undeb y Myfyrwyr 2013 - *Gavin Allen*

Fe gyfarchodd GA y cyngor am yr etholiadau sydd ar y gweill yn Undeb y Myfyrwyr ar gyfer swyddi swyddogion llawn amser a rhan amser. Cafodd pwysigrwydd dylanwad yr Uwch Gynrychiolwyr ar nifer y pleidleisiau ei bwysleisio. Fe fydd ymdriniaeth aml agwedd i'r etholiadau gan gynnwys cydweithio â'r Gweithredwr Chwaraeon, y Gweithredwr Cymdeithasau, gwirfoddolwyr, a chynrychiolwyr cwrs. Cafodd aelodau eu sicrhau y bydd y system bleidleisio ar-lein yn gweithio.

Pwynt Gweithredu: GA i anfon e-bost at Uwch Gynrychiolwyr yn cynnwys gwybodaeth ar yr etholiadau i'w ddefnyddio gan ymgeiswyr wrth ymgyrchu.

## 4. Adnoddau'r Llyfrgell - *Gwasanaethau Gwybodaeth*

SU ac LS o Gwasanaethau Gwybodaeth wedi mynychu'r cyfarfod i drafod nifer o faterion gydag aelodau.

Mae'r adran yn edrych ar sut i ymgysylltu â myfyrwyr yn eu gwaith yn fwy effeithiol. Nid yw'r cyn-bwyllgor Defnyddwyr GG yn gweithredu bellach ac fe ofynnwyd i'r cynrychiolwyr pe bai ail sefydlu'r pwyllgor yn fanteisiol. Cytunodd y cynrychiolwyr y buasai Pwyllgor GG ar wahân yn ateb ffafriol gan fod y nifer o bwyllgorau sydd angen i broblem gael ei thrafod ynddi'n aml yn ei hatal rhag cyrraedd GG.

Cafodd ei nodi mai dim ond 25% o fyfyrwyr newydd sy'n mynychu'r cyflwyniad i'r llyfrgell yn yr wythnos gyntaf. Fe awgrymodd y cynrychiolwyr wrth yr Adran fod nifer o fyfyrwyr yn mynd at staff academaidd yn gyntaf i gael unrhyw wybodaeth am adnoddau a llenyddiaeth; fe fuasai gweithio ar y cysywllt rhwng staff dysgu a GG, a darparu deunyddiau hyrwyddo'r modiwlau craidd yn ffordd fwy effeithiol o ddenu myfyrwyr.

Mae'r Adran hefyd yn edrych ar gynnal cynllun cyfnewid llyfrau sy'n cael ei weinyddu o hysbysfwrdd yn Llyfrgell Hugh Owen. Gan nad yw'r cynllun blaenorol - a gynhaliwyd gan Undeb y Myfyrwyr- yn cael ei weithredu bellach, fe gytunodd y cynrychiolwyr y buasai hyn yn syniad da gan fod y potensial ganddo i fod yn wasanaeth buddiol i fyfyrwyr. O ran costau llyfrau, mae JL ar hyn o bryd yn dadlau gyda siop lyfrau Canolfan y Celfyddydau am eu polisi dychwelyd gan ei fod yn annheg i fyfyrwyr yn ei barn hi.

Cafodd yr ymgyrch 'Mwy o Lyfrau' ei barnu'n llwyddiant yn gan y Brifysgol yn semester 1 ac fe gyhoeddwyd y ffigyrau union cywir ar sianeli cyfryngau cymdeithasol yr Adran. Mae nifer yr e-lyfrau yn parhau i gyfrannu at dwf yng nghyllideb yr Adran ac mae'r adborth gan ddefnyddwyr wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan.

Fe dynnodd WA sylw at y broblem fod nifer cyfyng o gyfnodolion ar gael ac yn dilyn hyn fe gafwyd trafodaeth ynghylch y problemau niferus am ddarparu adnoddau digonol. Fe fydd LS yn gwneud mwy o ymchwil ar hyn ac yn cysylltu â WA gyda mwy o wybodaeth.

Fe drafodwyd amseroedd cau Hugh Owen, yn enwedig y dull cau gam wrth gam sydd yn cael ei weithredu ar hyn o bryd.

Cytunwyd: Na ddylai dull cau cam wrth gam gael ei weithredu ac y dylai'r Llyfrgell aros ar agor tan yr amser sydd wedi ei nodi.

Fe ofynnwyd i'r cynrychiolwyr sut y dylai rhestri darllen gael eu darparu i fyfyrwyr. Yn dilyn hyn cafwyd trafodaeth ynghylch mynediad, darpariaeth a strwythur rhestri darllen.

Cytunwyd: Y dylid darparu rhestri darllen ar y wefan ac ar BlackBoard, gyda'r geiriau 'Craidd/Awgrymedig/Pellach' wrth ochr y testunau i nodi pwysigrwydd.

Yn olaf fe dynnwyd sylw'r cynrychiolwyr at fanylion y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Gwasanaethau Gwybodaeth.

**5. Cofnodion y Cyfarfod a Gynhaliwyd ar 06.12.2012**

Cytunwyd fod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

**6. Problemau sy'n Codi**

**a. Polisiau BlackBoard a Dal Darlithoedd**

Cafodd y '*Minimum Requirements Briefing'* gan Black Boardar gyfer staff y Brifysgol ei ddangos i'r cynrychiolwyr er mwyn clywed unrhyw sylwadau. Nid oes polisi ffurfiol ar ddefnydd dal darlithoedd ar gael.

Rhoddodd SU gyflwyniad am ei rôl hi yn Nhîm E-Ddysgu'r Brifysgol a rhoddodd fanylion ar yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff ar ddefnyddio Black Board.

Cytunwyd: Fod yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael i staff yn ddigonol a bod angen i'r Disgwyliadau Isaf yma gael eu gweithredu gan adrannau.

**b. Cyfarfodydd CRC sydd yn weddill**

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd sydd yn weddill wedi cael eu gosod yn ôl y gofyn ac wedi eu hanfon at aelodau yn ôl gofyn.

**c. Dillad Cynrychiolwyr Cwrs**

Mae costau'r dillad wedi cael eu hanfon at aelodau yn ôl y gofyn ac fe fydd penderfyniad swyddogol yn cael ei wneud yn fuan yn dilyn cadarnhad o'r swm sydd ar gael gan y Dirprwy Is-Ganghellor.

**d. Cynrychioli Myfyrwyr mewn Sefydliadau**

Diolchodd SR wrth y cynrychiolwyr am yr adborth a gafwyd i ymgynghoriad Undeb y Myfyrwyr ar yr ail-strwythuro academaidd. Fe fydd dogfen o Undeb y Myfyrwyr yn cael ei anfon ymlaen at yr Is-Ganghellor ar Ionawr 31yn cynnwys ymatebion yr aelodau.

**e. Digwyddiad mewn Cyfarfod Blaenorol**

Ymddiheurodd SR am y tarfu ar y cyfarfod blaenorol ac esboniodd fod cwyn swyddogol wedi cael ei drafod gyda'r aelod o staff perthnasol.

**7. Tiwtoriaid Personol**

Fe fydd JL yn dechrau gweithio ar brosiect i edrych ar ddarpariaeth tiwtor personol y Brifysgol.

Gweithred: Cynrychiolwyr i anfon e-bost at JL gydag asesiad byr o drefniadau tiwtor personol o fewn eu hadran hwythau.

## 8. Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr

Fe gafodd yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr ei lansio yn Aberystwyth ar ddydd Llun, yr 28ain o Ionawr. Fe esboniodd SR bwysigrwydd yr arolwg i'r cynrychiolwyr ac fe anogodd y rhai sydd yn eu blwyddyn olaf i'w gwblhau.

## 9. Unrhyw Fusnes Arall

### a. Amserlenni

Fe fydd Adrian Harvey, aelod o staff y Brifysgol sydd yn gweithio ar ddatrys y problemau diweddar ynghylch amserlenni, yn mynychu'r cyfarfod nesaf.

### b. Gwobrau Dysgu dan Arweiniad Myfyrwyr

Mae'r paratoadau ar gyfer GDAM eleni wedi dechrau ac fe fydd yr wybodaeth ar gael i'r cynrychiolwyr unwaith y bydd y cynlluniau'n bendant.

### c. Marcio Ôl-raddedig

Fe ddatganodd AP bryderon ar ran ôl-raddedigion ynghylch y cynnydd mewn pwysau gwaith marcio ar staff dysgu rhan amser. Fe hoffai'r SDRhA weld cynllun wedi ei strwythuro a beirniadaeth safonol. Fe fydd JL yn trafod y mater hwn gyda'r Deon Astudiaethau Uwchraddedig.

### d. Arholiadau

Mae trafodaethau diweddar gyda'r Uwch Dîm Rheoli wedi arwain at ystyried cynnal un cyfnod arholiadau yn hytrach na'r tri chyfnod sydd ar hyn o bryd.

<u>Cytunwyd: Fod y syniad hwn o un cyfnod arholiadau yn opsiwn anffafriol ac fe ddylai'r Swyddog Addysg anghytuno gydag unrhyw gynnig am hyn.</u>

**Caewyd y cyfarfod am 16:00**